OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1229

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

RHAN B

Rhyddhad

Amodau gofal plant

8. Yr amodau gofal plant yw—

(a) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd gan berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**);

(b) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(c) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(d) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy nag £20,500; ac

(e) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 14.

(**1**) 2010 mccc 1.